# heddwch

gaeaf 2008-2009
rhif 48

cnd cymru

yr ymgyrch dros ddiarfogi niwclear

# Edrych tua'r dyfodol

**Fel nad yw cwymp sefydliadau ariannol rhyngwladol yn ddigon, mae Gordon Brown wedi cyhoeddi ei fod am ddefnyddio y cyfle i arfogi Prydain gyda arfau niwlear newydd. Roedd sôn am gael rhywbeth i gymryd lle llongau tanfor Trident beth bynnag, ond gwrandewais mewn dychryn ar yr honiadau y byddai arfau niwclear drud yn gallu achub yr economi.**

Mewn gwirionedd, y gwrthwyneb fyddai'r achos. Dangosodd adroddiad diweddar gan TUC yr Alban na fyddai gwario ar Trident yn sicrhau swyddi yn yr Alban, ond yn lle hynny y byddai'n ddrwg i'r economi. Petai biliynau o bunnoedd yn cael eu gwario ar sectorau cynhyrchu, gellid creu 3000 o swyddi.

Gall hyn fod yn amser o gyfle. Nid yn unig y dylwn achub y cyfle i greu economi fwy cynhaliadwy i'r tymor hir, ond hefyd polisi diogelwch call a saff. Rydw i'n credu bod hyn yn golygu cael Sefydliad Heddwch yng Nghymru yn lle sefydlu academi hyfforddi filwrol Prydeinig. Petawn yn mabwysiadu yr un cynllun sydd yn bodoli yn Fflandrys, yna byddaiarbenigwyr yn edrych mewn i'r effeithiau o bob datblygiad ar bob agwedd o'n bywyd, yn cynnwys y rhan yr ydym eisiau i Gymru chwarae yn y Byd. Byddai gennym sefydliad gyda'r gwaith o gynghori llywodraeth Cymru ar sut gall ein cenedl gyfrannu at adeiladu heddwch a chefnogi diarfogi niwclear. Gallwn ni yn y symudiad heddwch lobio llywodraeth y Cynulliad i gychwyn sefydliad heddwch ar ôl yr etholiad nesaf. Yn y cyfamser, gallwn ddechrau datblygu gwaith y seydliad gan ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth arbenigol llawer o'n haelodau a'n cefnogwyr. Mae llawer o academyddion eisioes wedi dangos diddordeb. Fe fyddaf yn ymweld â Sefydliad Heddwch Fflandrys cyn y Nadolig i gyfarfod y cyfarwyddwr a thrafod beth y gallwn ddysgu yng Nghymru.

Fel mae pum deg mlynedd o'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear (CND) yn dod i ben, gallwn edrych yn nôl a dathlu beth yr ydym wedi ei gyflawni. Rhaid i ni hefyd gymeryd y cyfle i edrych ymlaen i sialens y blynyddoedd nesaf, yn gwybod y bydd 'CND' yn dal i ymgyrchu tra bod arfau niwclear yn bodoli. Ac mi ennillwn.

**Jill Evans ASE**
**Cadeirydd CND Cymru**



**'Roedd presenoldeb plant ar deithiau cerdded cynnar i Aldermaston yn cyfleu i'r cyhoedd – drwy gyfrwng lluniau newyddion byw fel hwn – beth oedd neges CND.'**

O 'Peace, 50 Years of protest 1958 – 2008' gan Barry Miles, adolygwyd gan John Cox, tud 6.

# Obama = Gobaith?

**Mae pawb yn dyfalu beth all Obama ei wneud fel Arlywydd. A fydd e'n sefyll yn gadarn yn erbyn y cymhlyg milwrol-diwydiannol a dod â goresgyniad yr UD ar Irac i ben? A ydy e o ddifrif pam ddywed fod angen dwysáu'r rhyfel yn Afghanistan? A fydd yn rhoi terfyn ar yr ymosodiadau ar ein hawliau sifil a oedd mor nodweddiadol o flynyddoedd Bush?**

Penodiad cyntaf Obama oedd y Democrat canolig Rahm Emanuel (sydd hefyd o Chicago) i fod yn Bennaeth Staff iddo – ceidwad porth y Tw Gwyn. Emanuel oedd yn gyfrifol am recriwtio ymgeiswyr Democrataidd i'r Gyngres yn 2006, a gwnaeth y cwbl a fedrai i wrthod mwy nag 20 o ymgeiswyr a wrthwynebai'r rhyfel o blaid rhai a barhaodd, ar ôl cael eu hethol, i bleidleisio o blaid ariannu'r rhyfel yn Irac. Dywedodd tad Emanuel, cyn aelod o'r Irgun, grup o frawychwyr yn Israel gynt, wrth bapur newydd yn Israel, 'Wrth gwrs y bydd yn dylanwadu ar yr arlywydd i fod o blaid Israel. Pam na fyddai e? Beth ydy e, Arab? Dydy e ddim yn mynd i fod yn glanhau lloriau'r Tw Gwyn.' Mae Emanuel wedi ymddiheuro wrth y gymuned Arabaidd-American am sylwadau hiliol ei dad, ond erys cwestiynau difrifol ynglwn â bwriadau Obama yn y Dwyrain Canol. Mae Obama hefyd yn ystyried gofyn i'r Ysgrifennydd Amddiffyn presennol, Robert Gates, i aros yn ei swydd. Datganodd Gates yn gyhoeddus fod yn rhaid i ni oedi cyn sôn am amserlen ar gyfer ymadael ag Irac.

Hillary Clinton yw dewis Obama fel Ysgrifennydd Gwladol. Pleidleisiodd o blaid y rhyfel yn erbyn Irac ac roedd ar y teledu yn America ddwy flynedd yn ôl yn dweud wrthym am "ymlacio", ein bod yn mynd i fod yn Irac "am amser maith". Dyma Ddemocrat rhyfelgar, canol y ffordd arall, a bydd yn gwbl gartrefol yn llywodraeth Obama sy'n ymddangos fel pe bai'n mynd i fod o dan fawd y corfforaethau.

Yn ystod yr ymgyrch, dywedodd yr arlywydd-etholedig sawl gwaith mai 'Irac oedd y rhyfel anghywir' ac y byddai, pan gâi ei ethol, yn symud lluoedd yr UD oddi yno i Afghanistan i 'ddod o hyd i Osama bin Laden a'i ladd.' Dywedodd hefyd fod yn rhaid cynyddu maint lluoedd arfog yr UD ac 'ailadeiladu'r' fyddin doredig drwy brynu cenedlaethau newydd o systemau arfau. Mae sut y gall Obama wneud hyn oll a dal i ddelio â gofal iechyd, addysg, swyddi, polisi ynni a mwy yn ddirgelwch i mi.

Y gwir gwestiwn i'r mudiad heddwch yn yr UD yw am ba hyd y caiff Obama fynd yn ei gyfer? Mae llawer o ryddfrydwyr, sy'n ystyried y mudiad heddwch yn estyniad o'r Democratiaid, yn uchel eu cloch yn condemnio unrhyw feirniadaeth gynnar ar Obama. Mae rhai eisoes yn tynnu eu harian allan o'r mudiad heddwch am ein bod yn 'feirniadol' o'r arlywydd etholedig. Dywedodd ffrind wrthyf yn ddiweddar fod un o gefnogwyr Obama wedi dweud wrtho yn ystod yr ymgyrch y byddai Obama'n dod â gobaith. Gofynnodd fy ffrind i'r cefnogwr beth oedd 'gobaith' yn ei olygu, go iawn. 'Beth bynnag y mynnwch iddo fod' oedd yr ateb. Llechen wag yw Obama. Gallwch pobl dynnu arno beth bynnag yr hoffent iddo fod. Dwi'n argyhoeddedig na fyddai'r oligarchaeth gorfforaethol sy'n rhedeg y wlad byth wedi caniatáu iddo fynd cyn belled â hyn os oedd unrhyw amheuon parthed ble y byddai ei deyrngarwch. Dylem oll fod yn mynnu pethau gan ei lywodraeth o'r cychwyn cyntaf, cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

**Bruce Gagnon**

**Bruce Gagnon yw cyd-drefnydd y mudiad o'r UD, Global Network Against Weapons & Nuclear Power in Space. Y llynedd, teithiodd o gwmpas Cymru i siarad am filitareiddio'r gofod. Mae'n sgrifennu blog gwych, 'Organizing Notes', a geir yn: www.space4peace.blogspot.com.**

***y tu fewn:***

***Cynllun Cyfrinachol ar gyfer Ergyd Niwclear Trident Newydd**
***San Tathen**
***Newyddion Ymgyrchu**
***Wylfa**
*a mwy...*

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch, chyfiawnder a diarfogi rhyngwladol, a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw a'r amgylchedd**

**heddwch**

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**
CND Cymru: Jill Gough
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
01591 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com






**Nid yw cynnwys heddwch o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau neu lythyron at y golygydd.**

**Rhowch wybod i ni!**

**Os ydych yn derbyn 'heddwch' ond ddim am barhau i'w dderbyn, am barhau i'w dderbyn ond heb fod yn aelod ar hyn o bryd neu os hoffech fwy o gopïau i'w dosbarthu, da chi, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth drwy lythyr, dros y ffôn neu drwy ebost (gweler Cysylltiadau tud. 8) neu cwblhewch a dychwelwch y ffurflen aelodaeth ((cysylltwch CND Cymru am ffurflen).**




# Gŵyl Heddwch Cymru

**Llongyfarchiadau i Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn am eu blwyddyn o waith caled i wneud Gwyl Heddwch Cymru yn benwythnos mor wych ym mis Hydref.**

Cynhaliwyd yr wyl mewn dau adeilad cyfagos o'r eiddo Prifysgol Bangor – yr Adran Dysgu Gydol Oes a'r Adran Gwyddorau Cyfrifiadur – diolch o galon iddynt ill dau. Noddwyd yr wyl gan CND Cymru, Cymdeithas y Cymod a Chynefin y Werin. Y trefnwyr lleol eleni oedd Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn. Helpodd llawer o grwpiau ac unigolion eraill o bob rhan o Gymru i wneud yr wyl yn llwyddiant a chyfrannu at y fforwm ganolog brysur a oedd â chornel y plant a stondinau mudiadau o bob rhan o Gymru.

Effeithiodd yr argyfwng economaidd a'r dirwasgiad ar lawer o'r pynciau a'r trafodaethau.

Agorwyd a chadeiriwyd yr wyl gan Stephen Thomas o Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, a drafododd adeiladu heddwch ac 'argyfwng hygrededd' y Cenhedloedd Unedig – o'r Datganiad Hollgyffredinol ar Hawliau Dynol a'i lwyddiant, hyd at ei wendidau a'i bosibiliadau.

**Siaradwyr**

Siaradodd **Jill Evans** ASE, Cadeirydd CND Cymru, am ymlediad niwclear a'r CAY, olynydd i Trident, a diogelwch yn y Dwyrain Canol a Phalesteina yn enwedig. Cododd y syniad o Sefydliad Heddwch Cymru a fyddai'n gallu mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ystod y penwythnos.

Trafododd **Milan Rai** (Voices in the Wilderness/ Justice Not Vengeance a chyd-olygydd Peace News) ddamcaniaethau gwleidyddol a byd-olwg Noam Chomksy.

Siaradodd **Moazzam Begg**, siaradwyr huawdl a theimladwy ar ran y mudiad Cageprisoners, am arteithio, carcharu heb gyhuddiad, trosglwyddo carcharorion i'w harteithio gan wledydd eraill, ar sail profiad personol ingol, ac yntau'n un a fu'n garcharor ym maes awyr Baghram yn Afghanistan ac ym Mae Guantánamo. Soniodd am y rheini sy'n dal i gael eu cadw yno'n anghyfreithlon ac am ddatblygiadau ac ymgyrchoedd cyfredol.


Adroddodd **Greg Muttitt** o Platform ar yr ymgais i breifateiddio olew Irac, gan drosglwyddo'r adnoddau a'r broses gynhyrchu i gwmnïau tramor, cam na welwyd mo'i debyg yn achos yr un wlad gynhyrchu olew arall, Er gwaethaf bygythiadau gan UDA a'r IMF i atal cymorth ailadeiladu, mae Senedd Irac yn dal i wrthod deddfu i ganiatáu preifateiddio'r olew. Ceir gwrthwynebiad ffyrnig i'r preifateiddio, y bwriedir bwrw ymlaen ag ef heb ddeddfu, gan undeb llafur (anghyfreithlon) y gweithwyr olew a chan y cyhoedd yn Irac.

**Mary Compton**, o Bowys, cyn-lywydd Undeb Cenedlaethol'yr Athrawon, yw cyd-olygydd *The Global Assault on Teaching, Teachers and their Unions*. Fel ymgyrchydd angerddol dros Balesteina, disgrifiodd Mary ei phrofiadau o fywyd ar y Lan Orllewinol pan oedd yno fel sylwedydd adeg etholiadau 2006 a enillwyd gan Hamas.

Cyflwynodd **Bianca Ambrose-Oji**, gynt o Ganolfan Astudiaethau Parthau Sych – Adnoddau Naturiol Prifysgol Bangor, a Forest Research, ddadansoddiad o effeithiau newid hinsawdd ar gyfandir Affrica, o safbwynt ecoleg, adnoddau, poblogaeth, cymdeithas, gwrthdaro arfog, a llywodraethu.

**Gweithdai**

Cafwyd sesiynau llai ofaint, dwysach hefyd, yn cynnwys: PAWB - Dylan Morgan ar yr ymgyrch yn erbyn codi adweithydd niwclear newydd yn yr Wylfa a mannau eraill; Academi Filwrol Sain Tathan - James Maiden â'r diweddaraf am yr ymgyrch; Ai crefydd yw achos rhyfel? – y Parch Guto Prys ap Gwynfor – dadl dan nawdd Cymdeithas y Cymod; Saethu ffilmiau, saethu pobl - Jonathan Ervine, Prifysgol Bangor, ar ryfel, heddwch a'r sinema; Mwy o bwer nag a wyddom - Milan Rai ar bwer gweithredu; Persbectif Affricanaidd - Nick Jewitt a Bianca Ambrose-Oji yn trafod effaith AIDS a malaria, gwrthdaro, cynaliadwyedd ac adnoddau.




**Ymgyrchoedd**

Lansiwyd dwy ymgyrch gardiau post yn yr wyl, y naill o blaid rhyddhau Binyam Mohamed o Fae Guantánamo, y llall o blaid hwyluso caniatáu fisa astudio tramor i fyfyrwyr Palesteina sy'n gaeth yn Gaza, yn enwedig Zohair Abu Shaban, iddo gael astudio yn Imperial College, Llundain.

**Digwyddiadau Diwylliannol a Chymdeithasol**

Dangosodd Jonathan Ervine ddarnau o'r ffilm *11"09'01 – September 11th* fel pwnc trafod; dangosodd Phil Steele ei gasgliad o 'Gipluniau a Thoriadau o 30 mlynedd o Brotest yng ngogledd Cymru'; canodd Côr Cymuned Bangor sesiwn amser cinio dydd Sul o ganeuon o bedwar ban; rhoddodd Ram, aelod o Driawd Naatyashwora, ddatganiad byr-fyfyr o ganu a chwarae'r gragen dro. Sêr gig yr wyl oedd DJ Hippyad, Turnstone a Bandabacana, a chodwyd £600 ar gyfer achosion Palestinaidd, yn cynnwys project amgylcheddol cymunedol Bustaan Qaraqa a sefydlwyd ger Bethlehem eleni gan bedwar o gyn-fyfyrwyr Bangor.

**Dyfodol i Fudiad Heddwch Cymru**

Trafododd cyfarfod bach ddyfodol Gwyliau Heddwch Cymru, cyfeiriad Cynefin y Werin yn y dyfodol, cydweithredu ehangach gyda mudiadau a sefydliadau eraill yng Nghymru, a'r syniad o Sefydliad Heddwch Cymru. Cytunwyd i drafod y prynciau hyn ymhellach mewn cyfarfod yn Aberystwyth yn y Flwyddyn Newydd.

**Phil Steele**

# Hydref Gwyllt yng Ngwalia

Cryfder mudiadau sy'n gweithio i newid pethau yw'r trefnwyr lleol diwyd sy'n rhoi o'u hamser a'u hangerdd i redeg stondinau, arddangos llenyddiaeth, casglu llofnodion, trefnu a hysbysu am gyfarfodydd, mynychu gwrthdystiau a gweithredu uniongyrchol – a gweithredu – a siarad â phobl. Ein gwaith fel 'gofalwyr' yr ymgyrch ledled Cymru yw cadw pethau i fynd, lledaenu gwybodaeth a deunydd arddangos, cynnal y rhwydweithiau, darparu'r fframweithiau a chadw llygad parhaus ar y darlun mwy a'i egluro. Hyd yn oed mewn cyfnodau tawelach, llai ffasiynol, byddwn yn cynnal cyfeillgarwch o fewn a rhwng mudiadau, pynciau, penderfynwyr a ffrindiau.

Felly y mae wedi parhau gydag CND Cymru yn lleol ac yn genedlaethol drwy'r haf a'r hydref. Ar ôl cynnal presenoldeb CND mewn nifer o ddigwyddiadau a gwyliau drwy'r haf – gan greu taflenni a deunydd arall dwyieithog – cawsom ein hunain yn symud i mewn i hydref o gyfarfodydd cyhoeddus. Siaradodd Paul Oestreicher yn Llandrindod (CND Llandrindod), Bruce Kent yn Hwlffordd (Grwp Heddwch Sir Benfro) a Kate Hudson yn Abertawe (CND Abertawe). Daeth nifer dda i bob digwyddiad – sy'n galonogol iawn i grwpiau lleol.

Cysylltiadau: CND Llandrindod Vi Shenton 01597 829 303 **Grwp Heddwch Sir Benfro** e: anne.gregson@littlewedlockgallery.co.uk t: 01834 845 868
CND Abertawe Brian a Jan Jones e: b.jones4@btinternet.com t: 01792 830 330

**heddweithredu:** **am fwy o wybodaeth am y siaradwyr, cysyllter â: Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor t:01248 490 715**. Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu digwyddiad lleol o unrhyw faint – gyda siaradwr neu i ddangos ffilm – efallai y gallwn helpu. Cysylltwch ag CND Cymru. Os oes gennych adroddiadau ar gyfer 'heddwch' cysylltwch â'r golygydd. (Gweler Cysylltiadau tud. 8)

# Gorymdaith Preifateiddio

**Bwriedir mai gwersyll milwrol Sain Tathan ym Mro Morgannwg fydd lleoliad y cynllun Menter Cyllid Preifat (PFI) mwyaf yng Nghymru ac ym Mhrydain gyfan. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, bydd £12 biliwn yn cael ei wario ar gytundeb PFI 30-mlynedd o hyd rhwng y llywodraeth a Chonsortiwm Metrix i addasu'r gwersyll presennol yn academi amddiffyn milwrol, lle bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan gwmnïau preifat i'r tri llu arfog Brydeinig, a lluoedd milwrol o wledydd tramor hefyd.**

Fel awyren fomio 'stealth', dydy'r datblygiad anferth hwn ddim wedi ymddangos ar sgrîn radar trafodaeth wleidyddol yng Nghymru ers cyhoeddi ei ddyfodiad i Gymru ym mis Ionawr 2007. Efallai fod hynny oherwydd y rhaniad rhwng San Steffan a Bae Caerdydd: gwnaed y penderfyniadau drwy gyfrwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Whitehall, gan ei fod yn fater heb ei ddatganoli. Yn ddiweddar, ymwelodd Llywydd Plaid Cymru, Dafydd Iwan, â Phenyberth yn Llyn a nodi'r tebygrwydd rhwng llosgi'r ysgol fomio a datgan gwrthwynebiad i ddatblygiad Sain Tathan. Ond ef yw'r unig arweinydd gwleidyddol sydd wedi ymuno'n gyhoeddus â Jill Evans, ASE y Blaid a Chadeirydd CND Cymru, drwy feirniadu'r fenter.

### Seiniau tawelwch

Mae yna deimlad nad yw ein gwleidyddion am drafod y mater. Er gwaethaf natur ddadleuol cynlluniau PFI, a'r ffaith nad yw Llywodraeth y Cynbulliad o'u plaid, ychydig iawn o gwestiynu â fu ar ddyfodiad y lefiathan hwn o fewn cylchoedd gwleidyddol yma. Yn wir, bu uwch wleidyddion yn y Cynulliad wrthi'n croesawu'r cyhoeddiad. Ac eto, y mae yna gwestiynau difrifol y bydd yn rhaid eu hateb cyn i'r Academi weld golau ddydd yn ôl y bwriad yn 2013.

### Camhysbysrwydd

Y ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy yn y misoedd diwethaf ynglyn â beth sy'n digwydd gyda pharatoadau Sain Tathan fu'r cylchgrawn *Private Eye*. Mae ei waith ymchwilio mewn cyferbyniad llwyr â phrif godwr hwyl y project, AS Bro Morgannwg, John Smith. Mae'r hyn y mae'n ei hawlio'n gyson yn y wasg leol – am y nifer o swyddi a fydd yn cael eu creu ar gyfer pobl leol, a sgil-effeithiau ariannol positif i'r ardal – yn or-ddweud sydd yn ymylu ar anonestrwydd.

### Economeg


Mewn gwirionedd, mae fforddiadwyedd y pecyn preifateiddio bellach yn destun pryder yn Whitehall a thu hwnt. Mae gwerthu tir sy'n perthyn i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn elfen allweddol yn y rhifyddeg ariannol y tu ôl i'r gwerth am arian yr honnir y bydd Consortiwm Metrix yn ei gynnig. Dydy'r fathemateg ddim yn edrych cystal erbyn heddiw, gyda dioddefaint economaidd ar bob tu, ac mae cysylltiadau diddorol hefyd rhwng gwerthiant tir â chynigion y llywodraeth o blaid creu eco-drefi. Dydy uwch swyddogion milwrol ddim yn ffyddiog iawn ynglyn â'r datblygiad chwaith, gydag anesmwythyd ymhlith y prif swyddogion oherwydd 'diffyg ethos milwrol' rhai o aelodau'r Consortiwm, ac ofnau y bydd y rhai a hyfforddwyd yn ymadael 'heb eu paratoi'n ddigonol ar gyfer gwasanaeth gweithredol'. Bydd cyflogau, amodau a darpariaeth pensiwn ar gyfer hyfforddwyr milwrol sy'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar hyn o bryd ar safleoedd eraill ym Mhrydain yn newid yn ddirfawr pan fydd y staff hyfforddi'n cael eu preifateiddio hefyd, ac mae'r undebau llafur wrthi'n ceisio sicrwydd am y materion hyn. Dydy rhai ddim yn hoffi'r syniad o symud i dde Cymru chwaith, er gwaethaf geiriau cynnes y Prif Weinidog Rhodri Morgan wrth ganu clodydd Bro Morgannwg fel lleoliad.

### Amseru

Gwthiodd datganiad yn Nhy'r Cyffredin gan Weinidog y Lluoedd Arfog, Bob Ainsworth, y dyddiad penderfynu ynglyn â Sain Tathan yn ôl i wanwyn 2009. Tua'r un pryd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn ystyried cais cynllunio yn ymwneud â'r ehangu o safbwynt tai, ffyrdd ac is-adeiledd arall yn y cylch y byddai'r datblygiad yn ei olygu. Mae'r rhai sy'n ymgyrchu i atal dyfodiad yr Academi yn defnyddio'r amserlen hon fel ffocws i'w hymdrechion. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymdrin â'r academi filwrol fel mater economaidd yn unig. Hyd yn oed yn y termau hynny, dydy cwestiwn pwysig fel cyfrifo cyhoeddus oddi ar y fantolen ar y fath raddfa fawr, effeithioldeb sicrhau amddiffyn y deyrnas, a'r effaith andwyol a allai fod ar ddatblygiadau lleol ddim, ar y cyfan, wedi cael eu trafod yn gyhoeddus. Mae'n bosibl daw'r realiti economaidd newydd â'r project i ben, neu gyfyngu ar ei faint.

### Moeseg

Ond i lawer i fudiadau ac unigolion sy'n ymgyrchu yn erbyn dewis Metrix, mae'r hyn sydd yn y fantol yn dra gwahanol. Maent yn gwrthwynebu militareiddio pellach ar Gymru, yn ddrwgdybus iawn o'r ffaith fod Consortiwm Metrix yn cynnwys y prif wneuthurydd arfau, Raytheon, y sefydliad ymchwil milwrol, Qinetiq, un o hoelion wyth PFI, cwmni EDS, y cwmni addysg preifat, Nord Anglia (a brynwyd yn ddiweddar gan gwmni ecwiti preifat) ac, efallai'r cywely rhyfeddaf oll yn y consortiwm, y Brifysgol Agored, ac yn ffieiddio'r posibilrwydd o hyfforddi milwyr llywodraethau tramor amheus, sef yr hyn y mae John Pilger wedi ei ddisgrifio fel *School of the Americas* Prydeinig, yn ymroddedig, fel y sefydliad gwreiddiol, i geisio 'sicrwydd byd-eang' fel y diffinir hynny gan y Consortiwm.



### Dadlau a thrafod

Roedd dyfodol Sain Tathan yn destun trafod yng Ngwyl Heddwch Cymru ym Mangor ym mis Hydref. Daeth yr achlysur cenedlaethol blynyddol hwn â llu o siaradwyr ysbrydoledig ynghyd i drafod amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chyfiawnder a heddwch. Nawr fod gwleidyddiaeth bleidiol wedi ei dirymu, i raddau helaeth, a bod dylanwad y capeli o ran niferoedd gymaint yn llai, mae'n rhaid wrth ddigwyddiad amhleidiol, seciwlar fel hwn i roi sylw i'r materion hyn.

Felly, bu trafodaeth am Sefydliad Heddwch i Gymru, mater dyfodol olew Irac, gweithdai, stondinau a gig i godi arian ar gyfer projectau ym Mhalesteina. Efallai mai cyfraniad mwyaf trawiadol y penwythnos oedd eiddo Moazzam Begg, cyn-garcharor Bae Guantánamo. Nid dyma'i ymweliad cyntaf â Chymru, ond roedd eglurdeb a rhesymeg bwyllog ei ddisgrifiadau o fywyd mewn siwt oren yn dal i fod yn nerthol iawn, rhyw bedair blynedd wedi iddo gael ei ryddhau heb gyhuddiad. Y flwyddyn nesaf, bydd yn mynd ar daith siarad gan rannu llwyfan gydag un o'r gyn-gareharwyr o'r UD, o'r gongl honno o Cuba sy'n America am byth. Dylai rhywun sicrhau bwcio neuadd blwyf Sain Tathan ar eu cyfer.

**Stephen Thomas**

**I gael gwybod mwy am y cynigion ar gyfer Sain Tathan, ymwelwch â www.cynefinywerin.org.uk ac http://www.antimetrix.org/.**

**Fersiwn dalfyredig yw hon o'r erthygl 'Privatisation on Parade' a gyhoeddwyd yn Planet 192, pris £4.00, ar gael o siopau llyfrau da neu'n uniongyrchol oddi wrth www.planetmagazine.org.uk**

# Cynllun Cyfrinachol ar gyfer Ergyd Niwclear Trident Newydd

**Mae'r llywodraeth ar hyn o bryd yn gwario £5 biliwn ar raglen adeiladu newydd yn ffatri fomiau niwclear Prydain yn Aldermaston. Mae'r gwariant blynyddol wedi dyblu bron, o £493m yn 2005/06 i amcangyfrif o £950m ar gyfer 2010/2011.**

Mae'r projectau'n cynnwys uwch-gyfrifiadur newydd, cyfleusterau laser newydd sy'n gallu dynwared profion ar arfau niwclear, a recriwtio mwy na 1000 o wyddonwyr a pheirianwyr newydd – cynnydd o 30% yn nifer y staff. Mae'n amhosibl credu nad yw hyn oll yn ddim mwy na mater o uwchraddio arferol, fel yr hawlia'r llywodraeth. Y rheswm yw hwyluso datblygu a chynhyrchu ergyd niwclear newydd ar gyfer Trident.

Dysgodd CND yr Alban fod David Gould, 'Prif Swyddog Gweithredol Offer Amddiffyn a Chynhaliaeth', mewn cyfarfod briffio ar gyfer y diwydiant amddiffyn pan nad oedd neb o'r wasg yn bresennol, wedi gollwng y gath o'r cwd. 'Y prynhawn yma', meddai, 'rydym yn mynd i amlinellu'n cynllun i gynnal braw-atalydd niwclear y DU. Y bwriad yw sicrhau offer newydd i gymryd lle'r holl system longau-tanfor Dosbarth Vanguard [*Trident*], yn cynnwys yr ergyd a'r taflegryn.'

Fodd bynnag, nid yw Senedd San Steffan wedi cael ei hysbysu am y datblygiadau hyn ac, yn sicr, nid yw wedi cymeradwyo'r fath benderfyniad.

Ffynonellau: Hansard 30 Hydref 2007; anerchiad cyweirnod gan David Gould, 29 Mehefin 2007, Abbey Wood – rhoddwyd i CND yr Alban yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth.

**heddweithredu:** Pam nad anfonwch chi'r wybodaeth hon at eich AS? Dwedwch eich barn am y mater wrtho/wrthi a holwch beth yw ei farn yntau/ei barn hithau. Gweler 'cyfeiriadau defnyddiol' ar dudalen 8.

# Hediadau Niwclear - anniogel i rai

**Diswyddwyd dau o uwch swyddogion Awyrlu'r Unol Daleithau, a sefydlwyd 'Global Strike Command' newydd gan yr UD yn sgîl datgelu'r ffaith y cafodd chwe arf niwclear eu cludo drwy gamgymeriad mewn awyrennau ar draws yr UD eleni. Am resymau diogelwch, mae yn erbyn y rheolau i hedfan unrhyw ddeunydd niwclear dros UDA, er i swyddog milwrol ddweud yn sgîl y newyddion nad oedd 'unrhyw berygl i ddiogelwch y cyhoedd'.**

Fel rhan o'r rhaglen arfau niwclear 'Brydeinig' mae deunydd yn cael ei hedfan yn ôl a blaen i'r Unol Daleithiau ar draws gorllewin Lloegr a de Cymru. Ar ôl cael ei gludo ar y briffordd o Aldermaston (Berkshire) a Burghfield i RAF Brize Norton (Swydd Rydychen), caiff ei lwytho ar awyrennau VC10. Bydd y rhain yn hedfan naill ai dros y Cotswolds a chyrion gogleddol Bryste a Chaerdydd, neu ymhellach i'r gogledd dros Gas-gwent, cyrion Casnewydd, Caerffili a Phort Talbot ac i lawr dros Fôr Hafren.


Mae'r cargo hwn yn cynnwys deunydd ymbelydrol a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn arfau niwclear. Mae gwybodaeth a sicrhawyd gan CND o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yr UD yn awgrymu ei fod yn debygol o gynnwys plwtoniwm a/neu wraniwm wedi ei gyfoethogi'n fawr iawn ynghyd â rhannau fel dyfeisiau tanio ergydion niwclear.

**heddweithredu: Os ydy hyn yn eich poeni, rhowch wybod yn union sut rydych yn teimlo i'ch AC, AS a'ch cynghorwyr lleol yn ddiymdroi.**

# Y diweddaraf am Vanunu

**Cafodd Mordechai Vanunu ei gipio gan swyddogion cudd Israel a'i gael yn euog o frad ym 1986 wedi iddo drafod ei waith fel technegydd yng ngwaith arfau niwclear Israel yn Dimona gyda'r *Sunday Times*.**

Fe'i carcharwyd am 18 mlynedd a chafodd ei ryddhau yn 2004, ond fe'i gwaharddwyd rhag siarad â'r cyfryngau neu ymadael ag Israel. Dedfrydwyd Mordechai wedyn i chwe mis o garchar ym mis Gorffennaf 2007 am roi 'cyfweliadau heb awdurdod' i'r cyfryngau tramor. Gwrandawyd ar ei apêl yn erbyn y ddedfryd ychwanegol mewn llys lleol yn Jerwsalem ar y 23ain o fis Medi lle cwtogwyd y ddedfryd i dri mis. Mae yn awr yn disgwyl apêl yn yr Aruchel Lys. Yr her fawr nesaf i gefnogwyr Mordechai Vanunu fydd ei gael yn ddiogel allan o Israel.




**heddweithredu: Anfonwch neges o gefnogaeth at Mordechai: PO Box 20102, Salah Adin St. Post Office, East Jerusalem 91384, Israel e: vanunuvjmc@gmail.com neu t: (972) 052 374 4569.**

# Ochr 'Sensitif' Bomio

**Ym mis Hydref, condemniwyd ymarfer milwrol 'Joint Warrior' yn hallt gan Gymdeithas y Cymod fel arwydd arall eto o'r ffordd mae Cymru'n cael ei militareiddio. Gêm ryfel anferth ddwy wythnos o hyd ar dir ac yn awyr Cymru a'r Alban, ac o'u cwmpas oedd Joint Warrior, ar y cyd rhwng lluoedd milwrol Prydain a NATO.**

Roedd yn cynnwys arfogaeth o 29 o longau rhyfel y llynges, pedair llong danfor a 60 o awyrennau yn hedfan 100 o gyrchoedd bob dydd. Roedd yr ymarferiad anferth yn cynnwys dynwared llu o gyrchoedd bomio ac awdurdodwyd tanio'r rhan fwyaf o fathau o arfau yn fyw.

Roedd Cymdeithas y Cymod yn gwaredu at y defnydd hwn o Gymru a'r Alban fel 'trefedigaethau ail-ddosbarth' gan achosi anghyfleustra a pherygl. Gwrthwynebai hefyd y gwastraff anferth ar adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ymarferiad hwn – a alwyd 'y mwyaf mewn hanes'.

Mynegodd grwpiau cadwraeth ac amgylcheddol, yn cynnwys y Gymdeithas Diogelu Morfilod a Dolffiniaid a mudiadau diogelu adar, bryderon am effaith ffrwydron milwrol ar adar môr, heulforgwn a chreaduriaid môr eraill. Yn ystod yr ymarferiad, cofnododd Arolwg Daearegol Prydain dri 'daeargryn' maint 1.1, 1.5 ac 1.9 ar Gyfradd Richter yn y Minch, rhwng tir mawr yr Alban ac Ynysoedd y Gorllewin. Cadarnhawyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ddiweddarach yr achoswyd hynny gan 'hyfforddiant clirio ffrwydron milwrol'.

Bwriedid i Joint Warrior 'ddynwared cyrchoedd gweithredol cyfoes yn y Dwyrain Canol'. Lleddfir ofnau darllenwyr mae'n siwr gan y ffaith i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ein sicrhau *eu bod yn* cymryd eu cyfrifoldebau amgylcheddol o ddifri calon, a'u bod wedi gwneud 'asesiadau effaith ar yr amgylchedd' cyn i 'Joint Warrior' gael ei gynnal.

**heddweithredu: Os yw hedfan isel milwrol yn peri gofid i chi, neu os ydych am gwyno am ddigwyddiad neilltuol, da chi, cysylltwch â'ch AS, eich AC (mae'n fater amgylcheddol ac iechyd hefyd) ac/neu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gwyno – neu byddant yn credu fod pawb yn fodlon ar y sefyllfa fel y mae. Sgrifennwch at: Ministry of Defence Directorate of Air Staff, Complaints and Enquiries Unit, Level 5, Zone H, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB t: 0207 218 6020 ff: 0207 218 2680 e: cro.wales@stc.raf.mod.uk**

# Gwaith diarfogi oddi uchod yn Ewrop

**Yn yr haf lansiodd grwp traws-bleidiol o Aelodau Senedd Ewrop ddatganiad Seneddol yn cefnogi Cytundeb ar Arfau Niwclear, i ddathlu deugain mlwyddiant y Cytundeb Atal Ymlediad (CAY), ac addewid (nas gwireddwyd) y gwledydd sydd ag arfau niwclear i symud tuag at ddileu eu harfogaeth niwclear yn llwyr.**

Drafftiwyd ac arwyddwyd y datganiad gan grwp traws-bleidiol Is-gadeiryddion Adran Senedd Ewrop o'r mudiad Seneddwyr o blaid Atal Ymlediad Niwclear a Diarfogi. Hyd yma, mae mwy na 75 o aelodau wedi arwyddo'r apêl.

Yn ystod yr achlysur lansio, tanlinellodd Chargé d'Affaires Llysgenhadaeth Costa Rica yr angen am Gytundeb ar Arfau Niwclear. Mae llywodraeth Costa Rica wedi chwarae rhan flaenllaw yn y Cenhedloedd Unedig o blaid cytundeb a fydd yn gwahardd pob arf niwclear. Y llynedd, rhoddodd Costa Rica Fodel o Gytundeb ar Arfau Niwclear (CAN) ger bron Pwyllgor Paratoadol y CAY yn Fienna a ger bron Cynulliad Cyffredinol y CU. Mae hwn yn amlinellu'r elfennau cyfreithiol, technegol a gwleidyddol angenrheidiol er mwyn sicrhau gwahardd a dileu arfau niwclear o dan reolaeth ryngwladol lem.

Bob blwyddyn ers 1996, mabwysiadwyd cynigion o blaid CAN yng Nghynulliad Cyffredinol y CU gyda mwyafrifoedd mawr, yn cynnwys cefnogaeth rhai gwledydd sy'n meddu ar arfau niwclear – India, Pakistan, China a Gogledd Korea. Mae'r ffaith fod y gwledydd eraill sydd ag arfau niwclear, a rhai o'i cynghreiriaid, yn gwrthod cyfranogi mewn negydu amlochrog er mwyn sicrhau gwaharddiad llwyr ar arfau niwclear, fel sydd yn ofynnol o dan Erthygl VI o'r CAY, wedi plymio'r CAY i argyfwng dwys.

Mae Seneddwyr Ewrop yn gobeithio y bydd Senedd a gwledydd Ewrop yn cefnogi'r weledigaeth eofn hon ac yn gweithredu i sicrhau y daw'n ddeddf, mewn ymateb i lais y bobl.

**heddweithredu: Am fwy o wybodaeth am y gwaith Ewropeaidd, cysyllter â: Pol D'Huyvetter, Adran Ewropeaidd PNND t: +32-495-28 02 59 e: pol@2020visioncampaign.org Mae CND yn rhan o'r Ymgyrch Ryngwladol i Ddileu Arfau Niwclear (ICAN) sy'n ymgyrchu i gael llywodraethau i negydu Cytundeb ar Arfau Niwclear, gweler: www.ican.org neu sgrifennwch at ICAN d/o Medact, 28 Charles Square, Llundain N1 6HT am fwy o wybodaeth.**

# Meiri'n arwyddo i gael gwared o'r bomiau

**Maer Caerffili, Anne Collins, yw'r diweddaraf o Gymru i ymaelodi â Meiri dros Heddwch – mudiad rhyngwladol sy'n ceisio cefnogaeth dinasoedd a chynghorau lleol ym mhedwar ban y byd i bwyso ar lywodraethau i gael gwared yn y man â'u holl stoc o arfau niwclear..**

Mae 2,468 o feiri wedi datgan eu bod yn 'Feiri dros Heddwch' ledled y byd, ac ym Mhrydain mae meiri o fwy na deugain o awdurdodau lleol (yn cynnwys Boris Johnson) wedi ymuno â'r rhwydwaith. Yng Nghymru, mae meiri/cadeiryddion cynghorau Casnewydd, Y Bala, Gwynedd, Yr Wyddgrug, ac yn awr, Caerffili wedi ymuno.

**Os ydych chi am annog eich awdurdod lleol neu faer y dref i ymuno – neu os ydych chi eich hun yn faer sydd am wneud – cysylltwch ag CND Cymru (gweler tud. 8) neu Meiri dros Heddwch, d/o Peter Burt e: peterburt@phonecoop.coop am fwy o gymorth, enghraifft o lythyr, a ffurflen aelodaeth maer. Mwy o wybodaeth yn: www.mayorsforpeace.org**



## Penyberth 1936 - 2008

**Ymunodd Cadeirydd CND Cymru, Jill Evans, a Dafydd Iwan â'r Parch. Guto Prys ap Gwynfor i gynnau fflam heddwch wrth y gofeb ym Mhenyberth ym mis Medi. Roedd y digwyddiad yn coffáu'r tân a gynnwyd gan Saunders Lewis, Lewis Valentine a DJ Williams i atal codi ysgol fomio ar y safle ym 1936.** Dywedodd Jill Evans: 'Rhaid i ni beidio â gadael i Gymru fynd yn ddarn hanfodol o'r peiriant milwrol, a rhaid gofyn cwestiynau sylfaenol iawn ynglyn â'r Academi Filwrol yn Sain Tathan cyn i ni gael ein tynnu i mewn i rywbeth y byddwn yn ei resynu fel cenedl. Dyfodol heddychlon, nid un rhyfelgar, yw'r hyn a ddymunwn i Gymru, gwlad o ddealltwriaeth ryngwladol nid gwrthdaro milwrol.'

Trefnwyd y digwyddiad gan Gymdeithas y Cymod.




### Tân yn Llŷn

Ffermdy ym Mhenrhos, ar Benrhyn Llyn, oedd Penyberth a fu'n gartref i lenyddiaeth a diwylliant Cymraeg dros y canrifoedd, ond fe'i dinistriwyd ym 1936 er mwyn adeiladu gwersyll hyfforddi a maes awyr ar gyfer yr Awyrlu. Dewisodd llywodraeth San Steffan Benrhyn Llyn fel safle ei ysgol fomio newydd wedi i safleoedd cyffelyb yn Northumberland a Dorset ennyn protestiadau.

Gwrthododd Stanley Baldwin, y Prif Weinidog, wrando ar yr achos yn erbyn lleoli'r ysgol fomio yng Nghymru, er gwaethaf dirprwyaeth a oedd yn cynrychioli hanner miliwn o brotestwyr Cymreig. I Saunders Lewis, asgwrn y gynnen oedd fod y llywodraeth Seisnig â'i bryd ar droi un o 'aelwydydd sancteiddiolaf' y Gymraeg yn ganolfan hybu dull barbaraidd o ryfela.

Dechreuwyd adeiladu'r Ysgol Fomio ym Mhenyberth union bedwar can mlynedd wedi pasio'r Ddeddf 'Uno'.

Ar fore'r 8fed o Fedi 1936, cafodd safle'r ysgol fomio ei roi ar dân, a derbyniwyd y cyfrifoldeb am y weithred gan Saunders Lewis, Lewis Valentine, a D.J. Williams. Methodd y rheithgor yn yr achos yng Nghaernarfon â chytuno ar ddedfryd ac aed â'r achos i'r Old Bailey yn Llundain lle dedfrydwyd 'Y Tri' i naw mis o garchar yn Wormwood Scrubs. Wedi eu rhyddhau, cawsant eu croesawu gan bymtheg mil a mwy o'u cydwladwyr ym mhafiliwn Caernarfon.

Ffynhonnell: John Davies, *Hanes Cymru* [1990]




## Ray ar y Gwarchae Mawr, SAA Aldermaston

**Roedd llwyddiant ein gwarchae ar Sefydliad Argfau Atomig Aldermaston ar y 27ain o Hydref y tu hwnt i'n disgwyliadau eithaf. Treuliasom y noson flaenorol yn Reading yn hyfforddi ac yn trafod y rhesymau pam roedden ni yno. Roedd yn amlwg i mi, a minnau â dau o blant ifanc - Tad and Carwyn, sydd ill dau yn yr ysgol, sydd eisiau dyfodol, ac sy'n cynrychioli'r holl bobl ifanc ym mhedwar ban y byd sydd hefyd eisiau dyfodol. Mae argyfwng ariannol yn llethu'r wlad, gyda phobl yn colli eu cartrefi a'u swyddi, ac eto, mae'r llywodraeth hon yn benderfynol ei bod am wario £76 biliwn i adeiladu cenhedlaeth newydd o ergydion niwclear i'w hychwanegu at y nifer ffiaidd sydd gennym eisoes, a bradychu ymrwymiad Prydain i atal ymlediad niwclear.**

Am 4:15 y bore, dihunodd yr holl le i seiniau'r cloc larwm mwyaf swnllyd a glywais erioed. Y tu allan, roedd yr heddlu wrthi eisoes yn archwilio'r ceir â fflachlamp ac yn tynnu lluniau.

Wrth i ni nesáu at Aldermaston, roedd yr heddlu ym mhobman. Arafodd ein gyrrwr, a dyma ddringo allan o'r bws mini a phlannu ein hunain yn wastad ar lawr cyn i'r heddlu allu ein hatal.

Am yr awr gyntaf, cadwodd yr adrenalin ni'n dwym, ond roedd hi'n oeri'n gyflym, ac erbyn 10 am, roedd coesau a thraed yn ddiffrwyth gyda'r oerfel. Codwyd ein calonnau gan y ffaith fod yr holl glwydi eraill wedi cael eu cau yn llwyddiannus hefyd. Daeth ymgyrchwyr eraill, cefnogwyr i'r rhai a oedd yn fodlon cael eu restio, â bwyd i ni, a chynnal ein hegni a'n hwyliau.

Am 10:30am daeth dau gerbyd mawr allan o'r ganolfan, a llifodd byddin o heddlu mewn gêr terfysg allan ohonyn nhw gan ddefnyddio sgriniau trwm i'n gwahanu oddi wrth weddill y protestwyr. Roedd ganddynt offer i dorri cloeon-braich ymaith. Wrth glwyd arall, clywsom fod grwp o bobl ifanc wedi atal y traffig drwy ludo eu hunain wrth ei gilydd ar draws y ffordd â 'super glue', a phan gawsant eu symud gan yr heddlu, daeth grwp arall yn defnyddio trybeddau a stiltiau i gymryd eu lle.

Am hanner dydd, fel y cytunwyd y noson flaenorol, dyma ni'n symud oddi wrth y clwydi. Roeddem yn teimlo fod y gwarchae wedi bod yn llwyddiant mawr gan Trident Ploughshares, CND, a phawb a gymerodd ran.

Byddaf yn edrych yn ôl ar y diwrnod gyda balchder mawr ac atgofion hyfryd am bobl wirioneddol wych, sydd yn mwy na gwrthbwyso Blairiaid, Bushiaid a Chameroniaid y byd.

**Ray Davies**

# Coedwig heddwch o'n cwmpas

**Siaradodd Vera Jones, Cadeirydd CND Llandrindod a'r Cylch mewn seremoni arall i blannu coed yn y dref ar Ddydd Hiroshima ym mis Awst. Dywedodd 'Rydym yn rhan o benderfyniad rhwngwladol sydd, yn ein gwlad ni, wedi gwrthwynebu'r sefydliad.'**

'Ond mae CND yn rhan wirioneddol o fywyd ar yr ynys hon. Gwnaethom argraff ar wleidyddiaeth a chymdeithas, ac rydym wedi sicrhau rhywfaint o gyfyngiadau ar arfau niwclear a'u defnydd. Rydym yn dal yn gadarn yn ei hymrwymiad gydag ymgyrchoedd cryfion a nifer cynyddol o gefnogwyr a chyngheiriaid.

'Yn gymysg â'r gefnogaeth i CND, roedd gwrthwynebiad. Cafodd coed a blannwyd ar safleoedd eraill eu niweidio neu eu torri i lawr. Ceid llythyron protest yn y wasg. Dywedid ein bod yn fudiad yn erbyn amddiffyn – unrhyw fath o amddiffyn. Yn ystod y 'Rhyfel Oer' bondigrybwyll, hawlid ein bod ni ar ochr Rwsia.

'Yn awr, diolch byth, mae'r hinsawdd wedi newid: daeth y llythyru i ben, ac mae'r coed yn ffynnu fel y gellir gweld yn ein Gardd Heddwch yma. Mae pobl y byddwn yn egluro amcanion CND wrthynt yn barod i wrando ac yn aml yn holi am ymuno.'



**Ffoto - o'r chwith i'r dde: Nicky Roberts, Pat Galliford, Vera Jones, Vi Shenton, a'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd Tony Phillips.**

**CND Llandrindod a'r Cylch, cysyllter â: Vi Shenton 01597 829 303**

# Mwy na dim ond arwydd o'n hamserau

**Wrth ddarllen *Peace - 50 years of protest 1958 – 2008* gan Barry Miles, fe'm tarodd, ac nid am y tro cyntaf, mor wahanol yw'r ffyrdd y mae pobl yn gweld CND. I mi, ar ôl hanner canrif o ymgyrchu egnïol dros ddiarfogi niwclear, holl bwrpas CND yw'r ymdrech i wireddu ein hamcanion – diarfogi niwclear a byd-eang – yn hytrach nag arddull byw neu symboliaeth neu 'brotestio' er ei fwyn ei hun.**

I bobl eraill, yn cynnwys awdur y llyfr hwn, mae CND hefyd, i raddau, yn garthen gysur y mae'n ei rhannu gydag eraill o'r un tueddfryd. Mae'n cofnodi twf symbol CND fel symbol heddwch byd-eang gydag anwyldeb, ond cymharol ychydig o sylw a roddir i'r ymgyrchoedd lle cafodd ei arddangos.



Ymddengys fod ymgyrchu dros heddwch, i rai, yn fath o arddull byw sy'n symboleiddio'r ffaith eu bod yn gwrthod y peiriant rhyfel a phopeth sy'n ymwneud â hynny. Drwy CND, fel *Friends Reunited*, maent yn cwrdd â phobl sydd â diddordebau tebyg. Wrth wneud hynny, maent yn ymhyfrydu yng nghwmnïaeth eraill sydd hefyd wedi eu dieithrio oddi wrth y gymdeithas dreisgar hon.

Dwi ddim yn beirniadu ymgyrchu dros heddwch fel arddull byw. Mae ar bob grwp cymdeithasol, boed yn blaid wleidyddol, yn gapel neu'r ymgyrch i unioni cam cymdeithasol, angen mwy na dim ond yr achos i rwymo ei aelodau ynghyd a chadw'r mudiad i fynd. Y pryd y daw fy amheuon i'r amlwg yw pan ymddengys i mi fod yr arddull byw wedi dechrau tra-arglwyddiaethu ar yr achos. Un peth sy'n amlygu hynny yw'r is-deitl – 'hanes mudiad protest' – a ddefnyddiwyd mewn nifer o lyfrau diweddar. Na, mae'n ddrwg gen i, dwi ddim am fod yn rhan o 'fudiad protest'. Mae hwn yn derm bychanol a ddefnyddir gan ein dilornwyr i nodweddu aelodau CND fel cefnogwyr achos anobeithiol. Efallai ei bod hi'n wir, o'i gymharu â'r gwaith o'n blaenau, nad ydym wedi cyflawni llawer, ond rwyf finnau yn yr ymgyrch yma er mwyn sicrhau diarfogi, nid am oes o brotestio. Cyn gynted ag y dechreuwch feddwl fel yna, gallwch gael eich hun yn mesur llwyddiant gwrthdystiad wrth y nifer a restiwyd ('protest wych') yn hytrach na faint o bobl a argyhoeddwyd gan ein dadleuon.

Dwi'n cofio arweinydd mawr y glöwyr, Arthur Horner, yn dweud wrthyf pan oeddwn yn fachgen ei fod yn byw am y dydd pan na fyddai angen i neb fynd dan ddaear i weithio byth eto. O'm rhan innau, dwi'n byw am y dydd pan na fydd angen i neb brotestio byth eto fod arf newydd marwol arall ar fin cael ei ddadorchuddio. Dwi yn CND i gael gwared o arfau a'r angen am brotestio yn erbyn arfau, ac ni fyddwn yn gweld eisiau arddull byw sydd fel pe tae wedi rheoli cymaint o'n bywydau.

Mae *Peace – 50 years of protest* hefyd, ysywaeth, yn olwg Eingl-Americanaidd ar y mudiad heddwch. Does dim sôn am Gymru, yr Alban ac Iwerddon, i'r graddau fod addasiadau o'r symbol CND ar gyfer cath-garwyr a dillad sêr y byd ffilmiau yn cael eu dathlu, ond nid rhai CND yr Alban (ysgallen) neu CND Llafur (rhosyn) neu addasiad cennin-pedr chwyldroadol CND Cymru. Mae'n gyfrol i harddu bwrdd coffi, ar gyfer pobl sy'n taro i mewn ac allan o'r mudiad yn ôl mympwy'r foment.

**John Cox (yn dangos ei oedran)**

***Peace – 50 years of protest 1958-2008* gan Barry Miles.**
**Cyhoeddwyd gan Collins and Brown**
**ISBN 978-1-84340-457-6 - £25**



'Dymchwel y ffens yng Nghomin Greenham - 1980au cynnar'



## 'Protest' – arddangosfa

**Mae gennych ychydig dros ddau fis o hyd i ddal diwedd yr arddangosfa hon a fu yn y Llyfrgell Genedlaethol ers blwyddyn. Daethpwyd â detholiad o'r archifau sy'n cofnodi dwy ganrif o ymgyrchu yng Nghymru dros hawliau dynol, heddwch a chyfiawnder ynghyd er mwyn rhoi blas ar hanes maith gweithredu gan bobl gyffredin.**

Mae ffotograff mawr (uwchben), trawiadol o brotest Pont Trefechan, Aberystwyth gan weithredwyr Cymdeithas yr Iaith ym 1963 yn dangos gweithred ddi-drais y cytuna'r protestwyr ei bod yn drwm o dan ddylanwad y mudiad hawliau sifil yn UDA. Gobeithid y byddai'r brotest ei hun hefyd yn tynnu sylw'r wasg a'r cyhoedd at statws eilradd yr iaith Gymraeg. Yn ogystal â'r frwydr dros Gymru annibynnol a chydnabyddiaeth i'r iaith Gymraeg, mae'r arddangosfa yn dangos dogfennau o Derfysgoedd Beca yn y 1840au, Rhyfel y *Degwm*, y Swffragetiaid, y Gorymdeithiau Newyn, streiciau diwydiannol ac, wrth gwrs, cynhwysir ffotograffau, taflenni a dogfennau oddi wrth CND Cymru yn ogystal ag CND Aberystwyth. Lleolir archif sylweddol CND Cymru yn Archif Wleidyddol Cymru y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n arddangosfa wirioneddol werth ymweld â hi – fel difyrrwch, gwybodaeth a chyfle i fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd a'r daith sy'n dal i fod o'n blaenau.

**Gellir gweld 'Protest' tan ddydd Sadwrn 14eg Chwefror 2009.**
**Oriau agor y Llyfrgell: Llun - Gwener 9.30am - 6.00pm, Sadwrn 9.30am - 5.00pm. Ac mae 'na olygfa fendigedig o'r grisiau – yn ogystal â mynediad am ddim, siop, a Bwyty Pen Dinas sydd yn cynnig te, coffi a/neu fwyd i ymwelwyr. Ceir map yn www.llgc.org.uk**

# Llawlyfr Hyfforddi Didreisedd i Gymru

**Mae Cymdeithas y Cymod wedi noddi cyhoeddi pecyn hyfforddi didreisedd a gafodd ei baratoi fel rhan o brosiect gan Cynefin y Werin. Awduron y pecyn yw Delyn Gwynfyd Harris o Goleg y Brifysgol Aberystwyth, Ben Gregory, Llywydd Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon, ac Arfon Rhys, Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod.**

Pwrpas y pecyn yw rhoi canllawiau ac adnoddau i hyfforddwyr grwpiau o bobl sydd am ddysgu mwy am sut i ddatrys gwrthdaro mewn dulliau di-drais. Ceir hanes sefyllfaoedd o wrthdaro a hanes mudiadau yng Nghymru a ddefnyddiodd ddulliau di-drais i'w datrys. Mae yna ganllawiau ac adnoddau yn y pecyn ar gyfer rhedeg cyfres o naw gweithdy ar ddidreisedd. Bydd pob gweithdy yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol o'r pwnc megis wynebu gwrthdaro, dadansoddi gwrthdaro, adweithio i rym, sut i ymgyrchu, natur didreisedd ac ati.

Gobeithir gweld gweithdai yn cael eu cynnal ar draws Cymru gan grwpiau heddwch lleol, capeli ac eglwysi, mudiadau gwirfoddol ac ati. Mae'r pecynnau yn addas ar gyfer hyfforddwyr a thiwtoriaid sy'n gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc hwn ac oedolion.

**Mae'r pecyn ar werth am £15 yr un. I archebu copi cysylltwch â Del Harris t: 01974 831 575.**



# David Jones: dyn anghyffredin, cyffredin

**Disgrifiwyd David Jones, sydd wedi marw yn 66 oed, gan ei chwaer fel 'dyn cyffredin a oedd yn gwneud pethau anghyffredin'. Pe baech chi'n rhoi deg o'i ffrindiau mewn stafell, a gofyn iddyn nhw sôn am ei fywyd, fe gaech chi straeon gwahanol iawn oherwydd amrywiaeth ei ddiddordebau a'i ffrindiau.**

Fy fersiwn i yw hon, fy narlun i o berson arbennig iawn, ac o gyfeillgarwch a oedd yn wleidyddol ac yn bersonol.

Bydd David Jones yn gyfarwydd i lawer o ddarllenwyr Heddwch ac aelodau CND drwy'r digwyddiadau a redai ar ran mudiadau fel Cymru Cuba. Bu hefyd ar y teithiau cerdded i Aldermaston yn ei arddegau.

### Cuba

Deuthum i'w adnabod pan oedd ef a'i wraig Vesi ymhlith y bobl a greodd gangen o Blaid Cymru yn Nyffryn Clwyd ar gyfer y rheini ohonom a oedd am chwarae rhan weithgar yn y Blaid ond nad oedd yn siarad Cymraeg, neu a oedd yn fwy cysurus yn y Saesneg.

Dros y blynyddoedd, codwyd symiau mawr o arian i'r Blaid yng nghartref y Jonesiaid, ond byddech yr un mor debygol o ddod o hyd i 'Dai Cuba' yn cynnal noson ym Meifod ar gyfer Cymru Cuba. Yn wir, byddwn yn dyfalu weithiau a oedd llysgennad Cuba a'i staff yn ystyried Dinbych fel lleoliad eu swyddfeydd is-lysgenhadol yng Nghymru!

Cynhaliwyd seminarau yn Clwyd Theatr Cymru – gyda stondinau CND ymhlith eraill – a llu o nosweithiau salsa yn Neuadd y Dref, Dinbych, yn aml gyda bandiau o Cuba, gyda'r diweddaraf o'r rhain ddim ond rhai wythnosau cyn i David farw.


### Gallu dwyn perswâd

Drwy gydol ei salwch, dangosodd y gallu prin yma i dderbyn newyddion meddygol gwael a bwrw ymlaen â'r project a oedd ar y gweill. Hyd at y diwedd, bu'r gweithio ar ei broject *Wireless Wales*, sydd wedi dwyn ffrwyth ers hynny yn Ninbych.

Un o orchestion mawr David oedd creu canolfan ddysgu Cymraeg. Cafodd y syniad tra'r oedd yn Faer Dinbych, ac ymhen cyfnod gwyrthiol o fyr, ganed Canolfan Iaith Clwyd. Roedd y cyfnod byr i'w briodoli'n bennaf i allu tawel David Jones i ddwyn perswâd ar bobl, a ddefnyddiodd mor effeithiol i sicrhau'r adeilad a'r cyllid.

### Rhyngwladol

Roedd David yn genedlaetholwr ac yn rhyngwladolwr i'r un graddau, rhywbeth sy'n ddirgelwch i rai, er na alla'i byth ddeall pam. Roedd yn byw yr hyn yr oedd yn ei broffesu, ac nid oedd yn un a fyddai'n gwyro i'r dde ar ôl ei lencyndod.



Gall orffwys yn dawel gan wybod fod gan Gymru Lywodraeth Cymru'n Un, gyda Phlaid Cymru yn chwarae rhan mor effeithiol yng nghlymblaid y Blaid a Llafur.

### Arbennig

Roedd Neuadd y Dref, Dinbych dan ei sang i ddathlu bywyd David, gyda phobl yn teithio o bell ac agos i fod yno, yn cynnwys y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, a Llywydd y Blaid, Dafydd Iwan.

Ymhlith y rheini a fu'n dathlu bywyd y dyn anghyffredin, cyffredin hwn roedd Apolo Santana, cydymaith o Chile, a lefarodd y geiriau *David Jones presente, ahora y siempre.* Maent yn golygu *'yn bresennol, yn awr ac am byth'*: teyrnged berffaith i'n cydymaith coll, David Jones.

**David Bradley**

pwer niwclear

# Y Wasgfa Niwclear

**Felly nawr, fe wyddom: roedd ail 'ymgynghoriad' y llywodraeth am bwer niwclear mor ddiffygiol, yn wir, â'r cyntaf. Dyna oedd dyfarniad y Bwrdd Safonau Ymchwil Marchnata swyddogol ar Hydref 16eg, mewn beirniadaeth hallt ar fethodoleg yr arolwg a wnaed gan Opinion Leader Research: 'cafodd gwybodaeth ei chyflwyno mewn ffordd anghywir neu gamarweiniol, neu roedd yn anghytbwys, fel bod perygl pendant o dywys ymatebwyr at ateb neilltuol'. Os yw'r achos o blaid pwer niwclear mor gryf, pam mae'n rhaid i'r llywodraeth geisio twyllo gyda'i harolygon barn? Rownd Dau i Greenpeace. Beirniadwyd Asesiad Lleoli Strategol y llywodraeth hefyd gan Dylan Morgan o PAWB (Pobol Atal Wylfa B) fel 'ymarferiad cwbl ffals' arall mewn ymgynghori, o'r safbwynt nad yw'n prin gyfeirio at berygl damweiniau niwclear neu ymosodiadau gan frawychwyr.**

### Newyddion ddoe

Fis Mai diwethaf, daeth y newyddion fod 'ffyrm deuluol Brown', sef EDF, wedi prynu tir o gwmpas Wylfa A. Haerodd y wasg leol sydd o blaid pwer nicwlear fod hyn yn dystiolaeth glir y byddai'r ffenics niwclear yn codi eto cyn bo hir yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, pan ddaeth EDF i gytundeb o'r diwedd gyda British Energy, cafodd y tir ei roi'n ôl ar y farchnad yn syth fel rhan o'r cytundeb – heb siw na miw o du'r codwyr hwyl niwclear.

### Elw yn erbyn atebolrwydd

Pan godir cwestiynau anodd ynglyn â chost ynni niwclear i'r trethdalwyr, ateb safonol llawer o wleidyddion yng Nghymru yw fod y diwydiant niwclear newydd yn talu ei ffordd ei hun ac yn sefyll yn annibynnol. Sypreis, sypreis – o dan gytundeb newydd, bydd consortiwm URS-Areva-Amec yn trosglwyddo pob atebolrwydd am unrhyw ddamwain yn ystod y broses o ddagomisiynu Sellafield i'r trethdalwyr – hyd yn oed os mai ar y consortiwm mae'r bai. Gallai hynny adael y cyhoedd â biliynau o bunnau o fil tra bod cwmnïau preifat yn pocedu'r elw. Yn rhyfedd iawn, ni wnaed yr un datganiad gan weinidog ynglyn a'r cytundeb amheus yma, ac ni chafodd y manylion eu rhoi ger bron yn llyfrgell Ty'r Cyffredin yn ôl y drefn gywir, gan wadu cyfle felly i ASau gwestiynu'r penderfyniad. Mae Paul Flynn AS (Gorllewin Casnewydd) wedi cyhuddo'r llywodraeth o geisio celu'r mater.

### Rhyfeddach a rhyfeddach

Mae'r argyfwng economaidd yn achosi crensio rhifau gwallgof ymhlith arbenigwyr ynni o Milan i Washington DC ac mae hyd yn oed cefnogwyr y dadeni niwclear y bu cymaint sôn amdano bellach yn ystyried a ddylid arafu'r broses. Does dim rhesymeg i economïau niwclear, boed yn y sector preifat neu gyhoeddus, boed yn y Ffindir (oedi pellach a gorwario anferthol, gyda llaw, ar safle'r adweithydd câs-arddangos Olkiluoto 3) neu yng Nghymru.



Mae wagen Wylfa B yn broject arall a wthiwyd ar Gymru sydd fel pe bai'n colli ei olwynion, er mai ychydig o'i gefnogwyr sy'n fodlon cydnabod hynny'n gyhoeddus. Yn ôl Hugh Richards o CWNC (Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru), mae'r lobi niwclear yn y blynyddoedd diwethaf wedi dargyfeirio sylw'r llywodraeth oddi wrth yr angen dybryd am frwydro cynhesu byd-eang drwy ddulliau amgen fel cadwraeth ynni. O safbwynt pryderon economaidd lleol, bydd dadgomisiynu Wylfa A yn darparu digon o waith i weithlu Wylfa am flynyddoedd i ddod, gan roi cyfle i economi Ynys Môn amrywio. Yr hyn a ddylai fod yn destun pryder i weithwyr Wylfa ar hyn o bryd, meddai CWNC, yw unrhyw oedi cyn gweithredu'r cynlluniau dadgomisiynu.

Gwyliwch eich cefnau! Ar ochr draw Môr Hafren o dde Cymru, mae safle Hinkley Point yn awr yn cael ei ystyried o ddifri ar gyfer ehangu niwclear. Ymunwch â'r ymgyrch honno hefyd, da chi: http://stophinkley.org/ a chefnogwch PAWB hefyd, wrth gwrs: http://www.stop-wylfa.org/ Mae angen dadeni mewn synnwyr cyffredin.

**Phil Steele**

# Obama ar arfau niwclear

'Mae'n bryd i ni anfon neges glir at y byd: mae America eisiau byd heb arfau niwclear'.

'Cyhyd ag y bo arfau niwclear yn bodoli, byddwn yn cadw braw-atalydd cryf. Ond fe wnawn y nod o ddileu pob arf niwclear yn elfen ganolog yn ein polisi niwclear.'

'Ni fyddaf yn cymeradwo datblygu arfau niwclear newydd . . . A byddaf yn gwneud y nod o ddileu holl arfau niwclear y byd yn elfen ganolog polisi niwclear yr UD.'

'Dylai'r Unol Daleithau a Rwsia geisio gostyngiadau y gellir eu gwireddu yn holl arfau niwclear yr UD a Rwsia – boed yn rhai parod neu wrth gefn, strategol neu anstrategol.'

'Rwy'n ymrwymedig i weithio gyda Rwsia a gwledydd eraill sydd ag arfau niwclear i wneud toriadau dwfn yn y stoc arfau fyd-eang erbyn diwedd fy nhymor cyntaf.'

'Mae cadw arfau niwclear yn barod i'w lansio ar fyr rybudd yn un o olion peryglus y Rhyfel Oer. Byddaf yn gweithio gyda Rwsia i roi terfyn ar hen bolisïau Rhyfel Oer o'r fath, mewn ffordd y gall y naill ochr a'r llall ei gwireddu.'

'Byddaf yn gweithio gyda Senedd yr UD i sicrhau y caiff y CAPC (y Cytundeb Atal Profion Cynhwysfawr) ei gymeradwyo cyn gynted ag sy'n ymarferol (ac yn) rhoi'r flaenoriaeth i ymdrechion diplomatig gydag India a Phakistan i'w hannog i symud (tuag at) gymeradwyo'r Cytundeb.'

'Fel arlywydd, byddaf yn rhoi cyfeiriad newydd i bolisi arfau niwclear ac yn dangos i'r byd fod America'n credu yn ei hymrwymiadau presennol o dan y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear i weithio tuag at ddileu pob arf niwclear yn y pen draw.'

'Byddai byd heb arfau niwclear o fudd aruthrol i America ac i'r byd. Ein cyfrifoldeb ni yw gwneud yr ymrwymiad hwnnw, a gwneud y gwaith caled i wireddu'r weledigaeth hon.'

**Rhaid i ni aros i weld. A ellir rhyddhau'r UD mor rhwydd o grafangau'r cymhlyg milwrol-diwydiannol? Cyfrifoldeb pobl yr UD a'r mudiad heddwch ym mhob man yw sicrhau fod Obama'n cadw at ei air a bod yr arlywydd etholedig yn gwireddu hon, y pwysicaf o'i holl addewidion.**

# dyddiadau dyddiadur

## 2009

**Di-dreisedd am Newid: Hyfforddi 2009**
O fis Ionawr tan fis Rhagfyr bydd 'Turning the Tide' yn cynnig gweithdai misol mewn dulliau di-drais. Yn addas ar gyfer gweithredwyr newid cymdeithasol, ac ar gael fel cwrs blwyddyn neu fel gweithdai unigol. Mae'n hanfodol bwcio o flaen llaw, mewn da bryd. Cwrs llawn £250, gweithdy undydd £25; consesiynau ar gael. Friends House, Euston, Llundain. Mae'r ganolfan yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Manylion pellach: www.turning-the-tide.org/workshops/2009_info e: denised@quaker.org.uk neu stevew@quaker.org.uk t: 020 7663 1061/1064.

**15fed–31ain Ionawr Iedled Prydain.**
Taith siarad gan Gene Stoltzfus, cyn-gyfarwyddydd y Timau Heddwch Cristnogol a dreuliodd amser yn 2003 yn Irac yn ymgynghori â charcharorion o Iraciaid, clerigwyr Mwslimaidd a Christnogol, a milwyr o'r UD. Os hoffech i Gene ddod i annerch eich grwp, ebostiwch: cpt.unitedkingdom@gmail.com t: 0845 450 0214 cyn gynted ag sy'n bosibl.


**24ain Ionawr Caerdydd 'Gwersyll Hinsawdd Cymru 2009'** Cyfarfod cenedlaethol i drafod digwyddiadau posibl, fel wythnos o brotestio neu weithredu torfol yn gysylltiedig â newid hinsawdd yng Nghymru. Tw Cwrdd y Crynwyr, 43 Heol Siarl, Cysyllter â: sym: 07886 719 873.

**3ydd–4ydd Ebrill Strasbwrg Dwedwch Na wrth NATO!** Digon o amser i gynllunio i ymuno ag CND yn y gwrthdystiad rhwngwladol i nodi trigain mlwyddiant sefydlu NATO. Er iddi gael ei sefydlu fel cynghrair filwrol 'amddiffynnol' (ond ag arfau niwclear), mae datganiad bwriad NATO wedi cael ei ailsgrifennu i ganiatáu gweithredu ymosodol ar draws tir mawr Ewrasia. Mae NATO wedi gwrthod polisi 'dim defnydd cyntaf' gydag arfau niwclear. Mae hynny'n golygu y byddai'r gynghrair yn fodlon defnyddio arfau niwclear mewn ymosodiad cyntaf. Mwy o fanylion, yn cynnwys gwybodaeth teithio, i ddilyn. Cadwch lygad ar: www.cnduk.org/index.php/campaigns/no-to-nato/no-to-nato.html

**24ain–25ain Ebrill**
**Llundain** Cyhadledd Hanes Heddwch y Mudiad i Ddileu Rhyfel. Imperial War Museum. Mwy o fanylion i ddilyn, gweler: www.abolishwar.org.uk
Ymgyrch Dileu'r Fasnach Arfau Caerdydd caatcardiff@gmail.com sym: 07954992895.

## cysylltiadau

**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth** Lotte Reimer
e: lotte.reimer@btinternet.com
t:01970 610 185
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon** Ben Gregory
e: benica@gn.apc.org
t: 01286 882134
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor & Ynys Mon**
Linda Rogers & Phil Steele
e: phil_steele@btinternet.com
t:01248 490 715
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu**
Mike Gatehouse
e: Mike.Gatehouse@phonecoop.coop
t:01874 658 565
**CND Bridgend** Pete Thompson
e: petethommo@gn.apc.org
t: 01656 648 817
**Campaign against the Arms Trade (Penarth)**
e: caatcardiff@gmail.com m: 0795 499 2895.
**Forwm Heddwch Conwy** Graham Morgan
e: morganpostcards@btinternet.com
t: 01492 872 599
**Grwp Heddwch & Chyfiawnder Cwm Teifi** Harry Rogers
e: harry@wildwestwales.com
t: 01559 371 201
**Cymdeithas y Cymod**
Marika Fusser: cymdeithasycymod@btinternet.com
**Llandrindod CND** Vi Shenton
t:01597 829 789
**Grwp Heddwch Ieuenctid Penfro**
Georgia Coles Riley
e: ggda8lgdfreak@hotmail.com
t: 01437 767 356
**Grwp Heddwch De Penfro**
Malcolm Gregson
malcolm.gregson@littlewedlockgallery.co.uk
t:01834 845868
**CND Abertawe** Brian & Jan Jones
e: swanseacnd@btinternet.com
t: 01792 830 330
**Menywod mewn Du Abergavenny**
Katrina Gass
e: katrinagass@yahoo.co.uk
t:01873 855 760
**Menywod mewn Du Cardiff**
Elisabeth
e: Fernfire@aol.com
t: 029 2048 1190
**Forwm Heddwch & Chyfiawnder Wrecsam**
Genny Bove
e: xxx@genny.force9.co.uk
t: 0845 330 4505




# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru)**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Golygydd:**
Jill Gough
0845 313 8 414
heddwch@cndcymru.org

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Argraffwyd a dosbarthwyd gan:**
Redkite Print
01591 610 844
redkiteprint@thefreeflyer.com




## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
01824 709 700
jievans@europarl.eu.int

**is-gaderyddion**
Brian Jones
01792 830 330
swanseacnd@btinternet.com

Llew Smith

George Crabb
01446 774 452
georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk

Olwen Davies
(y canolbarth)
01970 611 994

Ray Davies (de cymru)
029 20 889 514

John Cox
01495 773 495
drjohncox@aol.com

**aelodaeth & aelodau**
9,Rhiw Briallu, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SE
01970 626 740
michael.freeman9@btinternet.com

**masnachu**
Kate Gwynfyd-Sidford & Del Gwynfyd-Harris
coney@gn.apc.uk
01974 831 575

**trysorydd**
Chris Edmonson
3, Mountain View, Llanfoist, Abergavenny NP7 9YA
01873 853 094
chris.edmonson@alligin.net

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**

Jill Gough, CND Cymru,
Y Drain Gwynion, Heol yr Eglwys,
Talywaun,
Pontypool NP4 7EF
0845 313 8 414
heddwch@cndcymru.org